PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1E

CYNRYCHIOLAETHAU YSGRIFENEDIG

Cyflwyniad

1. Mae'r rheoliadau yn darparu y caiff apelau, ac eithrio apelau treth draenio, gael eu gwaredu ar sail y cynrychiolaethau ysgrifenedig, os bydd pob parti wedi cytuno yn ysgrifenedig:

- Ardrethiant annomestig;
- Prisiad treth cyngor;
- Atebolrwydd treth cyngor; a
- Hysbysiadau cwblhau.

2. Gall apelydd dynnu ei apêl yn ôl ar unrhyw adeg cyn y bydd y tribiwnlys yn ystyried y cynrychiolaethau ysgrifenedig.

Deddfwriaeth

- Rheol 25 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid i Restrau ac Apelau)(Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheol 20 o Reoliadau Dreth Gyngor (Newid i Restrau ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheol 33 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Trefn Cynrychiolaethau Ysgrifenedig

3. Gall barti wneud cais i'r achos gael ei benderfynu ar sail cynrychiolaethau ysgrifenedig.

4. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r holl bartïon eraill am y cais a bydd angen i'r partïon nodi a ydynt yn cytuno i'r cais neu beidio.

5. Pan fo'r holl bartïon wedi cytuno i'r cais, bydd y Clerc yn cyflwyno rhybudd o'r cytundeb ar y partïon.

6. Mae gan bob parti pedair wythnos i gyflwyno tystiolaeth/tystiolaeth ychwanegol i'r Clerc (os ydynt yn dymuno) neu gallant ddatgan nad ydynt yn dymuno gwneud cynrychiolaethau pellach.

7. Bydd y Clerc yn cyflwyno hysbysiad o unrhyw dystiolaeth a dderbyniwyd o dan bwynt 6 uchod ar y partïon eraill a bydd yn rhoi datganiad ynghylch ar drefn a ddilynir.

8. O fewn pedair wythnos o dderbyn rhybudd o'r fath, gall unrhyw barti gyflwyno i'r Clerc ateb i ddatganiad y parti arall neu ddatgan nad ydynt yn bwriadu gwneud cynrychiolaethau pellach.

9. Os bydd y Clerc yn derbyn cyflwyniadau pellach, bydd copïau cael eu cyflwyno i'r partïon eraill. Nid oes unrhyw hawl i'r partïon i ymateb i unrhyw gyflwyniad pellach.

10. Pedair wythnos ar ôl pwynt 9, bydd y Clerc yn cyflwyno copïau o'r holl wybodaeth a drosglwyddir yn unol â'r Rheoliadau i'r Tribiwnlys/ Panel Apêl.

11. Gall y Tribiwnlys/ Panel Apêl:

- ystyried y dogfennau a chyhoeddi penderfyniad; neu
- wneud yn ofynnol i unrhyw barti i ddarparu gwybodaeth bellach. Bydd y Clerc yn cyflwyno copi o unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd i bob parti arall. Gall bob parti yna, o fewn pedair wythnos i dderbyn gwybodaeth o'r fath, gyflwyno ymateb pellach i'r Clerc. Gall y Tribiwnlys/Panel Apêl ystyried y dogfennau unwaith eto a chyhoeddi penderfyniad o dan 3 (9) (i) uchod.

12. Gall y Tribiwnlys/Panel Apêl orchymyn i'r apêl gael ei waredu ar sail gwrandawiad.